

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR ADLONANT 25 MEDI 2018

Presennol

Cadeirydd – Cyng E R Hughes

E Lovgreen, A Hopcyn, K Jones, R Thomas, D L Jones, M Sarnacki

1. Ymddiheuriadau

Cyng W L Davies

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

Cinio Dolig

4. Dewis swyddogion

Cadeirydd – Cyng E R Hughes (unfrydol)

Is Gadeirydd – Cyng R Thomas (unfrydol)

5. Digwyddiadau :

i) Gweithgareddau Nadolig

Cafwyd trafodaeth efo plant ac athrawon yn ystod y diwrnod drysau agored ar farn oedd bod angen cael gwared o ddathlu'r geni ar y maes gan fod yn rhy hir ac felly yn amharu ar rediad y noson . Pawb yn cytuno bod Theatr Seilo wedi gweithio yn well

Plant yn awgrymu poster i hybu'r noson fel cystadleuaeth

Penderfynodd y pwyllgor rhediad y Noson fel hyn

Band Ysgol Syr Hugh Owen ar y Maes (angen gofyn iddynt aros yn eu cadeiriau nes bod pethau ar Y Maes wedi gorffen gan bod y twrw wedi amharu llynedd)

Goleuo'r goeden – angen gofyn wrth Michael am y system sain oedd yn Maes Barcer

Cynnig 5 munud o ddatlu'r geni i cyngor Eglwysi unai ar y
Maes neu yn Theatr Seilo fel cameo
Sion corn tu mewn i'r siop wag lawr grisiau (os dal yn wag) neu
tu allan fel llynedd
Os ydi'r siop yn wag angen addurno'r ffenestr i adlewyrchu
Grotto , cael cerddoriaeth Nadoligaidd yn chwarae (toedd hyn
heb ddigwydd llynedd) a cael yr Eira o'r ffenestr (angen prynu
mwy o eira)
Archebu hetiau sion corn i'r plant i gyd

Cystadleuaeth
Creu poster i hybu'r noson (felly angen hyrwyddo efo ysgolion
mor fuan a sy phosib er mwyn cael yn nol ar ôl hanner tymor).

Angen llogi Theatr Seilo – Cyng W L Davies i Mc ar y noson a
Cyng K Jones i fod yn Sion Corn

Angen mwy o raglenni er mwyn i'r plant gael nhw ar y llwyfan
hefyd

Gorymdeithio o'r maes , lawr heibio Pete's Laundrette ac i fyny
wrth Perkins er mwyn atal cael plant ar lon fawr (angen
hysbysebu'r ysgolion o hyn) gweld yr eira a codi llaw ar sion
corn – yna i Theatr Seilo

Angen 30 o cadeiriau i'r Maes ar gyfer YSHO – Cyng K Jones i
gael nhw o'r Castell gan ddefnyddio treilar Cyng K Richards yn
ystod y pnawn

ii) Dydd Gŵyl Dewi Sant

Adborth gan yr ysgolion bod nhw yn mwynhau

Penderfynwyd

Cynnal yr orymdaith o Swyddfa'r Harbwrfeistr o amgylch y
castell ac i mewn trwy'r Prif fynedfa neu Eagle tower (gofyn am
farn Prif Geidwad y Castell) Samba Band YSHO i arwain

Yna aros yn y Castell am y canu

Plant wedi gofyn i greu cerflun o Dewi Sant efo Artist preswyl ac
mi fysa nhw yn medru bod yn y Castell ar gyfer y digwyddiad
Angen llogi PA, Llogi artist preswyl , creu rhaglen , a meddwl
am ganeuon addas

Dim angen fflagiau llaw gan bod rhai llynedd dal ar gael

iii) Gweithgareddau Dinesig y Cyngor

Trafodaeth wedi bod yn gwerthuso y clerc (awgrym gan cynghorydd nid y clerc) y dylai'r pwyllgor adloniant gynorthwyo'r clerc fwy ar gyfer unrhyw ddigwyddiad mae'r Cyngor yn trefnu a dim jyst y Noson Nadoligaidd .

Penderfynwyd

I'r clerc greu rhestr gwaith ar gyfer bob digwyddiad a pawb i dderbyn rôl

Sul y cofio angen sicrhau bod Band Llanrug ar gael ac angen mwy o speakers . Angen Emynau newydd a cynnig Efengyl Tangnefedd

iv) Sgrin Fawr

Penderfynwyd

Parhau a'r digwyddiad dydd gwener a dydd Sadwrn ola cyn Nadolig gan bod pawb yn ei hoffi ceisio cael prisiau rhatach a fwy lleol

v) 100 mlynedd diwedd Rhyfel Byd Cyntaf

Cyngor eisoes wedi gosod y feinciau ond angen meddwl am beth arall i neud i nodi 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf Castell yn trefnu sgrin fawr o 1 o gloch tan 8 (yn debyg i beth oedd ar wal yn Castell o'r blaen) 20 o bobl mewn gwisgoedd hen a'r Castell yn goch

Cyngor i ofyn os oes modd goleuo'r beacon o'r Castell fel diwedd glo a trio cael un o'r "confetti rockets" llawn pabi i fynd o'r Queens Gate

6. Plac Lewis Jones

Trefnu y digwyddiad dadorchuddio ar ddiwrnod ei eni sef 30 Ionawr a gwahodd

Maer Trelew, Llysgennad Ariannin y Llundain , Dafydd Wigley , Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol, Cadeirydd Cymru a'r Ariannin Sef Menna George ynghyd a unrhyw aelodau sydd yn byw yn gyfagos, Cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Dinesig, Teulu y diweddar Menna Thomas, Dafydd Iwan i chwarae

7. Cinio Dolig

Cafwyd trafodaeth bod ni angen dechrau chwilio am lefydd gwahanol er mwyn cefnogi mwy nag un busnes yn y dref. Penderfynwyd mae y ffordd hawsa oedd i'r Maer ddewis bob blwyddyn gan geisio defnyddio llefydd gwahanol . Maer yn dewis Gisda eleni

Sylwadau cyffredinol i greu calendr y Cyngor o Mai i Mai fel bod yn rhedeg o flwyddyn ariannol y Cyngor a trio gwneud “meeting requests” ar gyfer pwyllgorau

Gorffennodd y cyfarfod am 6.35

Arwyddwyd Dyddiad